



**Polisi'r Ysgol ar gyfer Cefnogi'r Canlyniadau
Addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbynn Gofal (PDG/CLA)**

YSGOL PENNANT

School Policy for Supporting the educational
outcomes for Children Looked After (CLA)

	Enw / Name	Llofnod / Signature	Dyddiad / Date
Cadeirydd / Chair of Governors	Cllr Bryn Davies		26.01.2023
Pennaeth / Headteacher	Jane Peate		26.01.2023
Athro Dynodedig ar gyfer PDG Designated Teacher for LAC	Jane Peate		26.01.2023
Llywodraethwr Cyswllt sy'n gyfrifol am PDG Link Governor with responsibility for LAC	Rhiwan Briscoe		26.01.2023
Adolygwyd a Chadarnhawyd Reviewed and Accepted	Gwanwyn 2023 Spring 2023	Dyddiad Adolygu Date of Review	Gwanwyn 2025 Spring 2025
Polisi Statudol i'w Adolygu pob dwy flynedd / Statutory Policy to be reviewed biannually Canllawiau: Guidance:			

Rhagymadrodd

Mae llawer o blant a phobl ifanc sydd mewn gofal wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Er bod ganddynt ystod mor eang o alluoedd â'u cyfoedion, mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn arbennig o agored i dangyflawni. Yn genedlaethol, mae Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA) yn tangyflawni'n sylweddol ac maent mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae eu cynnydd academiaidd a chymdeithasol yn debygol o gael ei effeithio gan eu profiad a'i waethygu gan ansefydlogrwydd yn eu hamgylchiadau personol.

Mae helpu Plant sy'n Derbyn Gofal i lwyddo a darparu gwell dyfodol iddynt yn flaenoriaeth allweddol yn ein hysgol. Mae ein hysgol yn cydnabod y gall Plant sy'n Derbyn Gofal brofi anfantais benodol a sylweddol o fewn lleoliad ysgol, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial ym mhob maes.

Rydym yn ymwybodol y gallai rhai Plant sy'n Derbyn Gofal gael anawsterau penodol o ran cael cludiant ac o ran presenoldeb, cwblhau gwaith cartref, cael caniatâd rhieni ar gyfer gweithgareddau, cael cyllid ar gyfer gweithgareddau ychwanegol, cael gwisg ysgol ac offer cywir, yn ogystal â dioddef stigma posibl ynghylch eu hamgylchiadau. Rydym yn cydnabod y gallai fod gan Blant sy'n Derbyn Gofal anghenion penodol iawn ac y gallent fod yn ymdopi â thrawma, camdrin neu wrthodiad, a'u bod yn debygol o brofi trallod personol ac ansicrwydd.

Gallai Plant sy'n Derbyn Gofal brofi rhai o'r anawsterau canlynol (neu beidio):

- *hunan-barch isel*
- *cyflawniad addysgol gwael oherwydd amser allan o'r ysgol*
- *anghenion dysgu ychwanegol anhysbys oherwydd symud yn aml o un lleoliad i'r llall*
- *ymgysylltiad gwael oherwydd y ffactorau uchod*
- *datblygiad cymdeithasol/emosiynol/ gwybyddol sydd wedi'i oedi*
- *bod yn agored i broblemau iechyd meddwl*
- *bod wedi'u hynysu gydag ychydig o gyfleoedd i ryngweithio â chyfoedion*
- *dangos ymddygiad heriol*
- *dangos cymhlethdodau o ran ymlyniad ag eraill.*
- *bod ag angen bod yn breifat iawn*

Mae hyn yn gwneud plant sy'n derbyn gofal yn grŵp hynod agored i niwed o ran addysg a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Yn **Ysgol Pennant** credwn y dylai profiad addysgol pob plentyn fod yn gadarnhaol a phwerus a'n nod yw darparu amgylchedd dysgu lle gall pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal fod yn llwyddiannus. Credwn fod gan yr ysgol hon ran fawr i'w chwarae i sicrhau bod ein Plant sy'n Derbyn Gofal yn gallu bod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau, cyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas a chyflawni lles economaidd.

Nodau

Nodau'r ysgol mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yw:

- ***Gweithio'n agos gyda'r ysgol rithwir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl iddynt.***
- ***Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu dilyn fel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.***
- ***Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys.***
- ***Dylid adlewyrchu hyn yn y Cynllun Addysg Personol (CAP), i ddarparu cwricwlwm gwahaniaethol ac ymyriadau ychwanegol yn ôl yr angen sy'n briodol i anghenion yr unigolyn.***
- ***Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn holl weithgareddau'r ysgol.***
- ***Sicrhau bod rhieni, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd a chyrhaeddiad eu plentyn.***
- ***Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cynnwys, lle bo'n ymarferol, mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu darpariaeth yn y dyfodol.***

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn cymeradwyo polisi Cyngor Sir Powys ac yn croesawu Plant sy'n Derbyn Gofal a allai fod dan ofal ein hawdurdod lleol neu'r rhai a allai fod yng ngofal awdurdod arall ond yn byw ym Mhowys. Mae ein hymagwedd at annog a chefnogi cyflawniad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Sicrhau bod Athro Dynodedig wedi'i hyfforddi'n briodol yn cael ei benodi, a fydd yn gyfrifol am yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal.
- Penodi Llywodraethwr cyswllt ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Bydd gan bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal broffil TYFU a Chynllun Addysg Personol (CAP) wedi'u llunio rhwng yr ysgol, y plentyn, a gweithiwr cymdeithasol y plentyn (drwy Athro Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal), a fydd yn nodi anghenion unigol y plentyn a'r cymorth y bydd arno ei angen.
- Blaenoriaethu gostyngiad mewn gwaharddiadau a hyrwyddo presenoldeb
- Gweithio gyda'r tîm rhianta corfforaethol ehangach

Rolau a chyfrifoldebau

Bydd y corff llywodraethu yn:

- *Sicrhau bod gan yr ysgol bolisi cydlynol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal*
- *Cytuno ar bolisiau a gweithdrefnau'r ysgol ar y cyd â deddfwriaeth a chanllawiau statudol*
- *Sicrhau bod pob Llywodraethwr yn gwbl ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol a'r canllawiau am addysg Plant sy'n Derbyn Gofal*
- *Sicrhau bod gan yr ysgol drosolwg o anghenion a chynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal.*

Bydd y Pennaeth yn:

- *Sicrhau bod gan yr ysgol Athro Dynodedig sydd â'r un amlygrwydd â'r Cydlynnydd ADY, a bod yr Athro Dynodedig yn cael ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau fel y nodir isod.*
- *Sicrhau bod yr athro dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.*
- *Neilltuo adnoddau i ddiwallu anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm.*
- *Sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle i fonitro derbyniad, cynnydd, presenoldeb ac unrhyw waharddiad ar Blant sy'n Derbyn Gofal a gweithredu lle mae cynnydd, ymddygiad neu bresenoldeb yn is na'r disgwyl.*
- *Sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol bod cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal yn flaenoriaeth allweddol.*
- *Hyrwyddo a herio stereoteipiau negyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal a hyrwyddo dulliau sy'n ymwneud ag ymlyniad a thrawma er mwyn deall ymddygiad fel math o gyfathrebu.*
- *Sicrhau bod adroddiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar adroddiadau Pennaeth yn cynnwys nifer y PDG, eu presenoldeb fel grŵp agored i niwed mewn perthynas â dysgwyr eraill.*

Bydd yr athro dynodedig ar gyfer PDG yn:

- *Sicrhau cyflwyniad esmwyth a chroesawgar i'r plentyn a'i ofalwr, gan ddefnyddio'r Cynllun Addysg Personol i gynllunio ar gyfer y pontio hwnnw mewn ymgynghoriad â gweithiwr cymdeithasol y plentyn a bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu.*
- *Meithrin perthnasoedd â phartneriaid iechyd, addysg a gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill fel eu bod nhw a'r Athro/Athrawes Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn deall y cymorth sydd ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal.*
- *Sicrhau bod y cynllun addysg personol yn cael ei gwblhau gyda'r plentyn, gofal cymdeithasol, gofalwr maeth ac unrhyw bobl berthnasol eraill mewn modd amserol.*

- ***Gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'r Athro Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.***
- ***Ennill y wybodaeth a'r sgiliau i gynghori a chefnogi staff ar strategaethau addysgu ac ymddygiad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal .***
- ***Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer hyfforddiant a chymorth un-i-un.***
- ***Cefnogi derbyniadau Plant sy'n Derbyn Gofal newydd i'r ysgol***
- ***Cydgysylltu â'r Cydlynnydd ADY i sicrhau bod holl anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.***
- ***Cadw cofnod cyfredol o'r Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgol, gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdodau eraill a sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei throsglwyddo i staff eraill yn ôl yr angen.***
- ***Olrhain cynnydd academaidd a thargedu cymorth yn briodol.***
- ***Sefydlu a chynnal cyswllt rheolaidd â'r cartref, ac ag asiantaethau statudol a gwirfoddol.***
- ***Sicrhau cyfrinachedd i ddisgyblion unigol, gan rannu gwybodaeth bersonol ar sail yr angen i wybod yn unig.***
- ***Hyrwyddo cynhwysiant ym mhob maes o fywyd ysgol ac annog Plant sy'n Derbyn Gofal i ymuno mewn gweithgareddau allgyrsiol a dysgu y tu allan i'r ysgol.***
- ***Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi pontio a chynllunio wrth symud i gyfnod newydd mewn addysg.***
- ***Sicrhau bod presenoldeb yn cael ei fonitro.***
- ***Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r polisïau diweddaraf ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal.***

Cynlluniau Addysg Personol (PEPs)

- ***Rhaid i bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal gael cynllun gofal; mae Cynlluniau Addysg Personol yn rhan annatod o'r cynllun gofal hwn.***
- ***Mae'r eGynlluniau Addysg Personol (ePEP) yn gofnod esblygol o'r hyn sydd angen digwydd i ddisgybl iddo allu gwneud o leiaf y cynnydd disgwylidig a chyflawni ei botensial.***
- ***Bydd yr eGynlluniau Addysg Personol (ePEP) yn adlewyrchu pwysigrwydd ymagwedd bersonol at ddysgu sy'n bodloni anghenion addysgol canfyddedig y plentyn.***
- ***Bydd yr ysgol yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill a gofalwyr y plentyn i ddefnyddio'r eGynlluniau Addysg Personol i gefnogi anghenion addysgol y plentyn, codi dyheadau'r plentyn a gwella ei gyfleoedd bywyd.***
- ***Bydd pob corff perthnasol, megis yr ALL, yr athro dynodedig a'r gofalwyr, yn cynnwys y plentyn ym mhroses yr eGynlluniau Addysg Personol ar bob cam, pan fo'n briodol.***

Gweithio gydag asiantaethau ac addysg y Plentyn sy'n Derbyn Gofal

- *Bydd yr ysgol yn sicrhau bod copïau o'r holl adroddiadau perthnasol yn cael eu hanfon at y gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â rhieni/gofalwyr neu weithwyr cymdeithasol preswyl.*
- *Bydd yr ysgol yn cydlynu eu cyfarfodydd adolygu; er enghraifft, cynnal eu hadolygiad blynyddol ar yr un pryd ag adolygiad o'r Cynllun Addysg Personol.*
- *Bydd yr ysgol yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gyfnewid gwybodaeth megis newidiadau mewn amgylchiadau, gwaharddiadau neu faterion yn ymwneud â phresenoldeb.*
- *Bydd yr athro dynodedig ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn cyfathrebu â'r Athro/Athrawes Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a gweithiwr cymdeithasol y plentyn i hwyluso'r gwaith o gwblhau'r Cynllun Addysg Personol.*
- *Bydd yr athro dynodedig yn sicrhau cyfathrebu cyflym, cyson a chryf gyda'r Athro Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) ynghylch PDG sy'n absennol heb ganiatâd.*

Gwaharddiadau

Bydd profiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn y gorffennol yn cael eu hystyried wrth ddylunio a gweithredu Polisi Ymddygiad yr ysgol, gan sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg a chynhwysol. Lle mae gan yr ysgol bryderon am ymddygiad plentyn, bydd yr Athro Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosibl.

Dim ond fel dewis olaf y bydd gwaharddiad yn cael ei ystyried. Pan fydd gwaharddiad cyfnod penodol yn cael ei ystyried, bydd yr ysgol yn ymgynghori â'r Athro Arbenigol ar gyfer PDG cyn y gwaharddiad a phrif swyddog diogelu a phresenoldeb Cyngor Sir Powys, Michael Gedrim i ystyried pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu i atal gwaharddiad.

Fframwaith cyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw dyledus i ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

[Deddf Plant 1989](#)

[Adran 52 o Ddeddf Plant 2004](#)

[Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008](#)

[Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Gwneud gwahaniaeth: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf>](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf) Arweiniad i'r person dynodedig ar gyfer plant syn derbyn gofal mewn ysgolion (Dogfen rhif:

[255/2017, Tachwedd 2017\)](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf)

[<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf>](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf)

Llywodraeth Cymru (2015): [Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) | LLYW.CYMRU](#)

Welsh Government (2002) [210419-ks-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf](#)

Llywodraeth Cymru (2021): [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)

Mae'r polisi hwn yn gweithredu ar y cyd â'r polisïau a'r dogfennau ysgol canlynol:

- ***Polisi Derbyn***
- ***Polisi Ymddygiad***
- ***Polisi bwllo a cham-drin gan gyfoedion***
- ***Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol***
- ***Polisi Gwrth-fwllo***
- ***Polisi Cyfle Cyfartal***
- ***Polisi Amddiffyn a Diogelu Plant***
- ***Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)***